



CABINET ARBENNIG

COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH, 27 CHWEFROR 2024 AM 10AM

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd S Morgan – Cadeirydd

Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd); N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, Eiddo a Phrifyrdd); P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd); C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd); E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad); C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau); S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai), ac E. Forehead (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol).

Ynghyd â:

D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr); R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol); M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), a G. Jenkins (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro); L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r Dirprwy Swyddog Monitro); S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151); L. Sykes (Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151), a J. Thomas (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

RECORDIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, a byddai recordiad ar gael i'w weld trwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau yn ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu wedi'u heithrio. [Cliciwch Yma i Wyllo.](#)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan C. Harrhy (Prif Weithredwr)

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW YR AWDURDOD CYFAN (MIS 9).

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi manylion i'r Cabinet am wariant cyllideb referniw'r awdurdod cyfan a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Nododd y Cabinet fod y tanwariant a ragwelir o £4.898m yn llawer is na'r hyn a nodwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n adlewyrchu'r amgylchedd ariannol heriol y mae'r Cyngor yn ei wynebu ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd fod cyllideb referniw 2023/24 a gymeradwywyd yn cael ei thanysgrifennu drwy gyfraniad untro o gronfeydd wrth gefn o £15.345m ac arbedion dros dro gwerth cyfanswm o £6.862m.

Nododd y Cabinet ymhellach fod nifer o feysydd lle rhagwelir gorwariant a bod y mwyaf arwyddocaol o'r rhain wedi'u blaenoriaethu i'w hadolygu drwy Raglen Trawsnewid Mwstro Tîm Caerffili. I ddechrau, bydd yr adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar gyfleoedd i gynnwys costau o fewn y cyllidebau presennol ac yna byddant yn ystyried cyfleoedd i wneud arbedion lle bynnag y bo modd.

Yn dilyn ystyriaeth, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms a phleidlais lafar, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion, fod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

4. DIWEDDARIAD AR GRONFEYDD WRTH GEFN.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi manylion i'r Cabinet o'r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a ddelir gan yr Awdurdod ac a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet neu gymeradwyaeth y symudiadau a argymhellir ar gronfeydd wrth gefn fel y bo'n briodol.

Nododd y Cabinet fod diweddariad ar gronfeydd wrth gefn wedi'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Craffu ar 23 Ionawr 2024, a bod llawer o newidiadau wedi'u hamlinellu ym mharagraff 5.7 yr adroddiad ers hynny. Y newid mwyaf arwyddocaol yw swm ychwanegol o £835k y bydd CBS Caerffili yn ei dderbyn yn Setliad Ariannol Llywodraeth Leol Terfynol 2024/25 o ganlyniad i £25m o gyllid canlyniadol a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU. Nododd y Cabinet y bydd hyn yn lleihau'r alwad arfaethedig ar gronfeydd wrth gefn i helpu i gydbwysu cyllideb 2024/25.

Atgoffwyd y Cabinet fod cyllideb referniw 2023/24 yn cynnwys galwad untro ar gronfeydd wrth gefn o £15.345m a bod galwad bellach ar gronfeydd wrth gefn o £10.624m yn cael ei chynnig ar gyfer 2024/25. Pwysleisiwyd, er bod y dull hwn yn darparu'r gofod anadlu y mae mawr ei angen i ddatblygu cynigion arbedion o dan Mwstro Tîm Caerffili, nid yw'n opsiwn cynaliadwy yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

Yn dilyn ymholiad, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151 wrth y Cabinet ei bod yn ofyniad statudol i'r Gronfa Referniw Tai fod yn gyfrif wedi'i glustnodi, y mae'n rhaid ei gadw ar wahân i Wasanaethau'r Gronfa Gyffredinol.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ar swyddogaeth y Tîm Cartrefi Gwag ac eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod gormod o eiddo gwag ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r tîm yn nodi'r eiddo hyn, ac yn gweithio'n agos gyda'r perchnogion i'w cynorthwyo i'w haildefnyddio eto.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ar gyfer yr hyn y mae'r cyfleuster hunanyswariant yn cael ei ddefnyddio. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151 fod y rhan fwyaf o hawliadau yswiriant yn cael eu setlo o'r gronfa yswiriant, a dim ond symiau uwch na lefelau gormodol a bennwyd ymlaen llaw sy'n cael eu bodloni gan ein hyswirwyr allanol. Caiff lefelau cronfeydd wrth gefn eu hadolygu o bryd i'w gilydd gan Froceriaid Yswiriant allanol y cyngor i sicrhau bod digon o arian i fodloni rhwymedigaethau posibl. Yn dilyn yr adolygiad

diweddaraf, mae digon o gapasiti i ryddhau £2m i'r Gronfa Gyffredinol i gefnogi cyllideb 2024/25.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cymeradwyo, ac ar ffurf Microsoft Forms a phleidlais lafar, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion:

1. Cymeradwyo rhyddhau'r cronfeydd wrth gefn anrhwymedig canlynol i'r Gronfa Gyffredinol i gefnogi Cyllideb 2024/25: -
 - a. £3.719m o gronfeydd gwasanaeth wedi'u clustnodi
 - b. £0.017m o'r Cronfeydd Dros/Dan
 - c. £2m o'r Gronfa Yswiriant.
2. Bod cynnig i drosglwyddo 100% o sefyllfa danwariant net 2023/24, a ragwelir ar £4.898m ym mis Rhagfyr 2023 i'r Gronfa Gyffredinol, yn cael ei gymeradwyo.
3. Bod cynnig i ddyrannu £0.791m o'r Gronfa Gorwario/Tanwariant Addysg i Gronfa Wrth Gefn benodol wedi'i chlustnodi ar gyfer Gwobr Cyflog Athrawon Ychwanegol Ysgolion 2023/24, yn cael ei gytuno.
4. Bod cynnig i ailbwrpasu £0.108m o Gronfa Capasiti Staff Tai Sector Preifat i'r Gronfa Tîm Cartrefi Gwag i gynyddu'r cyllid fel y gellir ymestyn y tîm am ddwy flynedd, yn cael ei gytuno.

5. CYNIGION CYLLIDEB AR GYFER 2024/25.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet o gynigion cyllideb 2024/25 cyn penderfyniad terfynol y Cyngor.

Nododd y Cabinet y byddai'r penderfyniad terfynol ar gyfer Cynigion y Gyllideb ar gyfer 2024/25 yn cael ei wneud yn y Cyngor llawn ddydd Mawrth 27 Chwefror 2024.

Cydnabu'r Cabinet y bydd rhaglen trawsnewid Mwstro Tîm Caerffili yn elfen allweddol wrth fwrw ymlaen ag unrhyw newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu mynd i'r afael â'r heriau ariannol digynsail y mae'n eu hwynebu.

Cydnabu'r Cabinet ymhellach, gyda chynnydd o 6.9% yn Nhrefn y Cyngor, y byddai'r Awdurdod yn debygol o fod â'r lefel Treth y Cyngor isaf yng Nghymru.

Atgoffwyd y Cabinet, er bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflwyno ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, mae'r sefyllfa wrth symud ymlaen yn parhau i fod yn hynod lom gyda'r Cynllun Ariannol Tymor Canol wedi'i ddiweddarau sy'n nodi bod angen arbedion pellach o £45.213m ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd 2025/26 i 2026/27.

Yn dilyn ystyriaeth, cafodd ei gynnig a'i eilio bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, a thrwy Microsoft Forms a phleidlais lafar, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

ARGYMHELLWYD i'r Cyngor am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion;

1. Y dylid cymeradwyo cynigion y gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25 o £449.190m fel y manylwyd drwy gydol yr adroddiad a'u crynhoi yn Atodiad 1.
2. Y dylid cymeradwyo'r cynnydd arfaethedig mewn taliadau am brydau ysgol

mewn ysgolion uwchradd, Meals Direct a Chaffi'r Su ynghyd â'r cynnydd arfaethedig yn y ffi am brofion MOT fel y manylir ym mharagraff 5.5.5.

3. Y dylid cymeradwyo 100% o'r tanwariant net a ragwelir ar gyllideb referniw 2023/24 y Cyngor yn cael ei drosglwyddo i falansau'r Gronfa Gyffredinol fel yr amlinellir ym mharagraff 5.7.3.
4. Y dylid nodi'r symudiadau ar y Gronfa Gyffredinol yn Atodiad 4 a'r balans a ragwelir ar 31 Mawrth 2024 o £14.126m.
5. Y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2024/25 i 2026/27 fel y nodir yn Atodiad 5.
6. Y dylid cefnogi'r cynnig i gynyddu Treth y Cyngor 6.9% ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 i sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflawni (Band D Treth y Cyngor yn cael ei gosod ar £1,446.37).
7. Y dylid nodi'r gofyniad arbedion dangosol posibl o £45.213m ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd 2025/26 i 2026/27.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.25am

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 3 Ebrill 2024.